OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 Rhif 450 (Cy.40)

## GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod gofynion ar awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau eraill i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer, gan roi sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae adran 4(1) o'r Ddeddf honno yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu drwy Orchymyn ddangosyddion perfformiad gwerth gorau sy'n gymwys i awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau eraill.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu mai'r dangosyddion perfformiad a welir yn Atodlenni 1 a 2 o'r Gorchymyn hwn fydd y dangosyddion a ddefnyddir i fesur perfformiad awdurdod tân ac achub.

Mae asesiad effaith reoleiddiol wedi'i lunio mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn a gellir cael copi gan y Gangen Tân ac Achub, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn 01685 729221).

## 2008 No. 450 (W.40)

## FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

# The Fire and Rescue Authorities (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Part I of the Local Government Act 1999 imposes requirements on fire and rescue authorities and other authorities to secure continuous improvement in the way in which their functions are exercised, having regard to economy, efficiency and effectiveness. Section 4(1) of that Act confers a power on the Welsh Ministers to specify by Order best value performance indicators applicable to fire and rescue authorities and other authorities.

Article 2 of this Order specifies that the performance indicators set out in Schedules 1 and 2 to this Order are to be the indicators by which a fire and rescue authority's performance will be measured.

A regulatory impact assessment has been prepared in connection with this Order and a copy can be obtained from Fire and Rescue Branch, Community Safety Division, Welsh Assembly Government, Rhydycar, Merthyr Tydfil, CF48 1UZ (telephone 01685 729221).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 450 (Cy.40)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Chwefror 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *22 Chwefror 2008* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mawrth 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 4(1)(a) a (2) ac adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy o dan adran 4(3) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 18 Mawrth 2008.

(2) Dim ond i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru sy'n awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun y mae adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys(**3**) ac mae'n cael effaith mewn perthynas â'r flwyddyn 2008-2009 a'r blynyddoedd ariannol sy'n dilyn.

(**1**) 1999 p.27.

(**2**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2004 p.21.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 450 (W.40)

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

## The Fire and Rescue Authorities (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 February 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *22 February 2008* |
| *Coming into force* | *18 March 2008* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by section 4(1)(a) and (2) and section 29(1) of the Local Government Act 1999(**1**) and now vested in them(**2**), and having consulted those persons which it is required by section 4(3) of that Act to consult, hereby make the following Order:

**Title, coming into force and application**

**1**.—(1) The title of this Order is The Fire and Rescue Authorities (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008 and it comes into force on 18 March 2008.

(2) This Order applies only to best value authorities in Wales which are a fire and rescue authority constituted by a scheme to which section 4 of the Fire and Rescue Services Act 2004(**3**) applies and has effect in relation to the year 2008-2009 and subsequent financial years.

(**1**) 1999 c.27.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) 2004 c.21.

**Dangosyddion perfformiad**

**2**. Mae'r dangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt i fesur perfformiad pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau wedi'u pennu drwy hyn yn–

(a) Atodlen 1 (Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol); a

(b) Atodlen 2 (Ymateb Effeithiol).

**Performance indicators**

**2**. The performance indicators by reference to which the performance of each fire and rescue authority in Wales will be measured in exercising their functions are hereby specified in–

(a) Schedule 1 (Risk Reduction and Community Safety); and

(b) Schedule 2 (Effective Response).

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

19 Chwefror 2008

19 February 2008

## ATODLEN 1

Erthygl 2

Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
|---|---|
| FRS/RRC/S/001 | i) Cyfanswm nifer y tanau yr aed atynt fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>ii) Cyfanswm nifer y prif danau yr aed atynt fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>iii) Cyfanswm nifer y tanau yr aed atynt ac a ddechreuwyd drwy ddamwain mewn anheddau fesul 10,000 o anheddau;<br>iv) Cyfanswm nifer y tanau yr aed atynt ac a ddechreuwyd yn fwriadol fesul 10,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/002 | Nifer:<br>i) y marwolaethau a achoswyd gan danau fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>ii) y marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd drwy ddamwain fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>iii) y marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn fwriadol fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>iv) yr anafiadau (ac eithrio gwiriadau rhagofal) sy'n deillio o danau fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>v) yr anafiadau (ac eithrio gwiriadau rhagofal) sy'n deillio o danau a ddechreuwyd drwy ddamwain fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>vi) yr anafiadau (ac eithrio gwiriadau rhagofal) sy'n deillio o danau a ddechreuwyd yn fwriadol fesul 100,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/003 | Cyfanswm nifer y tanau mewn mangreoedd annomestig fesul 1,000 o fangreoedd annomestig. |

## SCHEDULE 1

Article 2

Risk Reduction and Community Safety

| *Reference* | *Indicator* |
|---|---|
| FRS/RRC/S/001 | i) Total number of fires attended per 10,000 population;<br>ii) Total number of primary fires attended per 10,000 population;<br>iii) Total number of fires attended which were started accidentally in dwellings per 10,000 dwellings;<br>iv) Total number of fires attended which were started deliberately per 10,000 population. |
| FRS/RRC/S/002 | The number of:<br>i) Deaths caused by fires per 100,000 population;<br>ii) Deaths caused by fires which were started accidentally per 100,000 population;<br>iii) Deaths caused by fires which were started deliberately per 100,000 population;<br>iv)Injuries (excluding precautionary checks) arising from fires per 100,000 population;<br>v) Injuries (excluding precautionary checks) arising from fires which were started accidentally per 100,000 population;<br>vi) Injuries (excluding precautionary checks) arising from fires which were started deliberately per 100,000 population. |
| FRS/RRC/S/003 | The total number of fires in non-domestic premises per 1,000 non-domestic premises. |

| | |
|---|---|
| FRS/RRC/S/004 | i) Nifer y cartrefi yn y dosbarth o risgiau sy'n uwch na'r cyfartaledd a'r dosbarth o risgiau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd (fel y penderfynwyd ar y dosbarth hwnnw drwy fodel Ymateb Argyfwng y Gwasanaethau Tân ('YAGT')) ac a gafodd, yn y flwyddyn adrodd, asesiad risg diogelwch tân cartref ac sydd o fewn y safon gwasanaeth pum-munud.<br>ii) Nifer y cartrefi yn y dosbarth o risgiau sy'n uwch na'r cyfartaledd a'r dosbarth o risgiau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd (fel y penderfynwyd ar y dosbarth hwnnw drwy fodel YAGT) ac a gafodd, yn y flwyddyn adrodd, asesiad risg diogelwch tân cartref ac sydd o fewn y safon gwasanaeth deng-munud.<br>iii) Nifer y cartrefi yn y dosbarth o risgiau sy'n uwch na'r cyfartaledd a'r dosbarth o risgiau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd (fel y penderfynwyd ar y dosbarth hwnnw drwy fodel YAGT) ac a gafodd, yn y flwyddyn adrodd, asesiad risg diogelwch tân cartref ac sydd y tu allan i'r safon gwasanaeth deng-munud.<br>iv) Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi lle'r oedd asesiad risg diogelwch tân cartref a/neu gweithgaredd cysylltiedig i leihau risg wedi'u cynnal o fewn dwy flynedd i'r tân. |

| | |
|---|---|
| FRS/RRC/S/004 | i)The number of homes that are within the above average risk category and the well above average risk category (as determined by the Fire Service Emergency Cover model ('FSEC')) that have received, within the reporting year, a home fire safety risk assessment and are within the five minute service standard.<br>ii) The number of homes that are within the above average risk category and the well above average risk category (as determined by FSEC) that have received, within the reporting year, a home fire safety risk assessment and are within the ten minute service standard.<br>iii)The number of homes that are within the above average risk category and the well above average risk category (as determined by FSEC) that have received, within the reporting year, a home fire safety risk assessment and are outside the ten minute service standard.<br>iv)The total number of fires in homes in which a home fire safety risk assessment and/or associated risk reduction activity had taken place within two years of the fire. |

## ATODLEN 2

Erthygl 2

Ymateb Effeithiol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
|---|---|
| FRS/EFR/S/001 | Y ganran o danau mewn anheddau, sydd o fewn y safon gwasanaeth deng-munud fel y nodwyd gan bob Awdurdod Tân ac Achub, ac yr aed atynt o fewn deng munud. |
| FRS/EFR/S/002 | Y ganran o danau mewn anheddau, y mae model Ymateb Argyfwng y Gwasanaethau Tân wedi nodi bod eu cyfradd anafiadau yn uwch na chwech, ac yr aed atynt o fewn pum munud. |

## SCHEDULE 2

Article 2

Effective Response

| *Reference* | *Indicator* |
|---|---|
| FRS/EFR/S/001 | Percentage of fires in dwellings, within the ten minute service standard as identified by each Fire and Rescue Authority, that were attended within ten minutes. |
| FRS/EFR/S/002 | Percentage of fires in dwellings, which have been identified by the Fire Service Emergency Cover model as having a casualty rate greater than six, that were attended within five minutes. |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2008 Rhif 450 (Cy.40)**

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2008 No. 450 (W.40)**

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

The Fire and Rescue Authorities (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008

©h Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W257/03/08 ON